

Nivolumab i drin carcinoma celloedd cennog y pen a'r gwddf ar ôl cemotherapi sy'n seiliedig ar blatinwm

22 Tachwedd 2017

Mae nivolumab (Opdivo) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer carcinoma celloedd cennog y pen a'r gwddf mewn oedolion y mae eu hafiechyd wedi datblygu o fewn 6 mis i gael cemotherapi sy'n seiliedig ar blatinwm.

Rhaid rhoi'r gorau i gymryd nivolumab ar ôl ei gymryd heb egwyl am 2 flynedd, neu'n gynt os bydd yr afiechyd yn datblygu.

Os nad ydych yn gymwys i gael nivolumab, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?

- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [NHS Choices](#) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Gwybodaeth i Gleifion Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000
- [Sefydliad Canser y Geg](#), 01924 950 950
- [Grŵp Cymorth Canser y Pen a'r Gwddf The Swallows](#), 01253 428 940

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-2740-1